

Cyngor Sir Ddinbych

Aseiad Perfformiad Panel

Hydref 2024



1.0 Cyflwyniad a Chefnidir

- 1.1 Yn unol â'r dyletswyddau perfformiad dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, comisiynodd Cyngor Sir Ddinbych Asesiad Perfformiad Panel (APP) trwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC).
- 1.2 Cwblhawyd yr asesiad ar y safle dros bedwar diwrnod, a daeth i ben ar 12 Medi 2024 gyda chyflwyniad o adborth i'r Cyngor yn egluro'r prif ganfyddiadau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.
- 1.3 Cafodd yr asesiad ei gynnal yn seiliedig ar y ddogfen gwmpasu y bu i'r Cyngor gytuno arni a methodoleg APP CLILC, a ddatblygwyd gyda'r sector. Mae methodoleg APP CLILC yn darparu fframwaith cyffredinol: nid yw pob trywydd ymholi yn gwbl bendant, ond maent yn rhoi arweiniad i'r Panel o ran y meysydd y gellir eu harchwilio er mwyn bodloni'r ddyletswydd statudol. Fodd bynnag, dylai'r graddau y mae'r Panel yn archwilio'r meysydd hynny fod yn gymesur â chwmpas y Cyngor, ond yn ddigonol i'r Panel allu dod i ryw gasgliad.
- 1.4 Yn unol â'r canllawiau statudol, nid archwiliad nac arolygiad mo'r APP ac nid yw'n ceisio dyblygu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan reoleiddwyr a chyrrff eraill. Er bod y Panel wedi cynnal asesiad corfforaethol, nid oedd yr asesiad hwn yn un trwyadl a dylid ei ystyried ochr yn ochr â ffynonellau sicrwydd eraill fel hunanasesiad y Cyngor ei hun, adolygiadau archwilio mewnol ac adolygiadau archwilio a rheoleiddio allanol.
- 1.5 Wrth baratoi at yr APP, fe wnaeth y Cyngor fesur cwmpas eu hanghenion er mwyn sicrhau'r gwerth a'r effaith fwyaf i'r asesiad ar gyfer y Cyngor. Mae'r meysydd penodol roedd y Cyngor eisiau canolbwyntio arnynt i'w gweld ym mharagraff 3.2.
- 1.6 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg cryno o ganfyddiadau'r Panel wedi'u hadrodd yn ôl eithriadau.

2.0 Panel

- 2.1 Comisiynwyd y cymheiriaid canlynol gan CLILC i gynnal yr asesiad. Cytunwyd ar y detholiad o gymheiriaid yn ôl disgrisiwn y Cyngor, ar sail addasrwydd eu sgiliau a'u profiad:
 - Cadeirydd Annibynnol: Bev Smith
 - Uwch Aelod o'r Cymheiriaid: Y Cynghorydd Caro Wild, Cyngor Dinas Caerdydd
 - Uwch Swyddog o'r Cymheiriaid: Tom Bowring, Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, Cyngor Bro Morgannwg
 - Cymheiriaid o'r Sectorau Cyhoeddus, Preifat neu Wirfoddol Ehangach: Anna Morgan, Red Shiny Apple Ltd; a Sian-Elin Freel – Mentor, Golygydd a Phrawf-ddarllenydd.
- 2.2 Cefnogwyd y Panel gan Joseph Lewis (Swyddog Gwelliant) a Lyndon Puddy (Rheolwr APP) o Dîm Gwelliant CLILC.

3.0 Cwmpas a Dull

- 3.1 Roedd gofyn i'r Panel asesu i ba raddau y mae'r Cyngor:

- Yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol;
- Yn defnyddio ei adnoddau'n ddarbodus, effeithlon ac effeithiol; ac
- Â threfniadau llywodraethu effeithiol ar waith i sicrhau'r uchod.

3.2 Nododd y Cyngor y meysydd canlynol y byddai barn Cymheiriaid arnynt yn werthfawr fel rhan o'r asesiad:

- Arweinyddiaeth: I ba raddau y mae strwythur corfforaethol a gwleidyddol y Cyngor yn gweithio, ac a yw capasiti a gallu'n briodol er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor?
- Cynigion Cyllidebol / Trawsnewid: I ba raddau y mae'r Cyngor wedi rheoli'r argyfwng ariannol presennol a pha mor dda y mae'r Cyngor yn paratoi ar gyfer y dyfodol?
- Gweithio mewn Partneriaeth: I ba raddau y gall y Cyngor weithio'n effeithiol gyda phartneriaid, a gwneud y mwyaf o adnoddau ar draws y sectorau?

3.3 Wrth gynnal yr asesiad, fe wnaeth y Panel gynnal adolygiad o'r ddesg o ddogfennau, data, adroddiadau allanol a gwybodaeth berthnasol arall gan y Cyngor. Roedd y rhan o'r adolygiad oedd ar y safle'n cynnwys cyfres o gyfarfodydd unigol a grwpiau ffocws gyda'r budd-ddeiliaid canlynol:

- Arweinydd y Cyngor ac Aelodau Cabinet Gweithredol
- Y Prif Swyddog Gweithredol a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, gan gynnwys y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro
- Penaethiaid Gwasanaeth a Phrif Swyddogion y Cyngor
- Aelodau o'r Gwrthbleidiau
- Pob Aelod Etholedig
- Grwpiau ffocws staff
- Undebau Llafur
- Uchelgais Gogledd Cymru
- Partneriaethau Cyrchfan (Busnes)
- Aelodau statudol ac anstatudol o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC)
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
- Aelodau'r Fforwm Iaith
- Fforwm Pobl Hŷn
- Cadeirydd/ Is-Gadeirydd: Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Cadeirydd/ Is-Gadeirydd: Pwyllgor Craffu Perfformiad
- Cadeirydd/ Is-Gadeirydd: Pwyllgor Safonau

Crynodeb Gweithredol

4.0 Casgliad Cyffredinol

- 4.1 Yng nghyd-destun y pwysau ariannol a'r galw sylweddol ar hyn o bryd, dywedodd y Panel fod y Cyngor yn un sy'n cael ei redeg yn dda, gydag arweinyddiaeth broffesiynol a gwleidyddol gadarn a chydlynol, a'i fod yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol, gan gydnabod ambell i her a brofwyd yn ddiweddar ar ôl cyflwyno'r system wastraff newydd. Daeth y Panel i'r casgliad bod prosesau clir ar waith gan y Cyngor i reoli adnoddau'n ddarvoudus ac effeithlon, yn ogystal â threfniadau llywodraethu effeithiol. Mae cyfleoedd am welliant wedi'u nodi, a fydd yn gwella'r trefniadau sydd ar waith, yn arbennig o ran y rhai sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau trawsnewid hirdymor a thymor canolig y Cyngor, a bydd angen i'r Cyngor fynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau cynaliadwyedd.
- 4.2 Dywedodd y Panel fod y Cyngor, ar draws sawl gweinyddiaeth, wedi llywio degawd a mwy o galedi llywodraeth leol yn dda, gan ddiogelu gwasanaethau rheng flaen lle bo hynny'n bosibl.
- 4.3 Nododd y Panel gryfderau allweddol, meysydd arloesi ac arferion da a fydd yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa dda ar gyfer llywio'r rhagolygon economaidd heriol, y tynnir sylw atynt yn adran 6.0.
- 4.4. Mae'r cyfleoedd a argymhellir o ran gwelliant wedi'u cynnwys mewn blychau testun dan adrannau perthnasol yr adroddiad. Mae'r meysydd hyn i'w gwella wedi'u datblygu yn ysbryd gwelliant dan arweiniad y sector, gyda'r bwriad o gefnogi'r Cyngor wrth iddo fynd i'r afael â gwirionedd rhagolygon economaidd heriol, ac yn allweddol wrth iddo symud ymlaen â'r cam nesaf yn ei broses drawsnewid.

5.0 Cyd-destun Lleol

- 5.1 Mae Cyngor Sir Ddinbych yng Ngogledd Cymru ac mae'n ymestyn o drefi arfordirol y Rhyl a Phrestatyn ar arfordir y gogledd, trwy Ddyffryn Clwyd ac i Ddyffryn Dyfrdwy. Mae'r Sir yn cwmpasu ardal o tua 837 cilomedr sgwâr ac mae ganddi boblogaeth o tua 94,000 o breswylwyr ac mae mwy na 36,000 o siaradwyr Cymraeg yn y Sir.
- 5.2 Mae'r Sir wedi'i rhannu yn 29 ward ac mae ganddi 48 o Gynghorwyr.

15	Llafur
13	Annibynnol
8	Plaid Cymru .
7	Ceidwadwyr
2	Plaid Werdd Cymru
1	Cynghorydd Amhleidiol
2	Gwag

- 5.3 Arweinydd y Cyngor yw'r Cynghorydd Jason Mclellan. Y Cynghorydd Julie Matthews yw'r Dirprwy Arweinydd. Mae'r Cabinet yn cynnwys 9 Cynghorydd, gan gynnwys yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd.
- 5.4 Darperir gwasanaethau'r Cyngor drwy Dîm Gweithredol Corfforaethol y Cyngor. Graham Boase yw'r Prif Swyddog Gweithredol, a chaiff ei gefnogi gan dri Chyfarwyddwr Corfforaethol (mae un ohonynt yn Swyddog Monitro yn y Cyngor) a'r Swyddog Adran 151. Cefnogir strwythur y Tîm Gweithredol Corfforaethol ymhellach gan Uwch Dîm Arweinyddiaeth, sy'n cynnwys y Tîm Gweithredol Corfforaethol a phob Pennaeth Gwasanaeth arall ar gyfer cyflawni swyddogaethau.
- 5.5 Gweledigaeth y Cyngor yw creu diwylliant '**Un Cyngor**', gydag arweinyddiaeth weladwy, gadarn a rheolaeth effeithiol, er mwyn sicrhau lefel uchel o wasanaeth cwsmer ar gyfer ein cymunedau. Dyma'r gwerthoedd sydd wedi'u cyhoeddi gan y Cyngor: **Balchder, Undod, Parch a Chywirdeb**
- 5.6 Mae gan y Cyngor 5 o egwyddorion sy'n hanfodol i bopeth y mae'n ei wneud:
- **Ein Diwylliant**
 - **Ein Cymunedau**
 - **Ein Perfformiad**
 - **Ein Perthnasoedd Aelod/ Swyddog**
 - **Ein Staff**
- 5.7 Mae'r Cyngor wedi diweddarau ei Strategaeth Gorfforaethol, Y Sir Ddinbych a Garem 2022-2027. Mae'r cynllun hwn yn sail i uchelgeisiau strategol y Cyngor wrth symud ymlaen er mwyn sicrhau lles ei breswylwyr a chafodd ei ddatblygu yng ngoleuni pwysau ariannol heriol.

6.0 Cryfderau a Meysydd Arloesi

- 6.1 Nododd y Panel sawl maes oedd yn gryfder ar draws y Cyngor a'i weinyddiaeth, gan gynnwys:
- Clymblaid wleidyddol aeddfed a sefydlog, sy'n gallu cydweithio er budd y Sir a'i phreswylwyr.
 - Prif Weithredwr dygn a llawn egni, sydd wedi ceisio sicrhau rhagor o eglurder ac atebolrwydd o ran strwythur cyfarwyddwyr y Cyngor, gan sefydlu sylfaen gadarn ar gyfer newidiadau pellach a pharhau i hyrwyddo'r diwylliant 'Un Cyngor a Dull Sir Ddinbych'.
 - Perthnasoedd gwaith cadarnhaol rhwng swyddogion ac aelodau, sy'n deall eu rolau unigryw a chyflenwol.
 - Cydnabyddiaeth gref ymhlith staff o'r 'Dull Sir Ddinbych' ac 'Un Cyngor'.
 - Ymdeimlad cryf o falchder ac ymrwymiad gan staff tuag at wneud gwahaniaeth i gymunedau, a pharodrwydd i gefnogi staff y Cyngor o feysydd gwasanaeth eraill sydd angen cymorth tymor byr e.e. ymateb i faterion cwsmeriaid mewn perthynas â gwastraff.

6.2 Nododd y Panel hefyd nifer o feysydd o arferion da ac arloesi, gan gynnwys;

- Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu'n dda â'i staff ac aelodau hyd yma ynghylch ei bwysau cyllidebol uniongyrchol.
- Llawer iawn o waith integreiddio ar draws y gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, sydd i'w weld yn amlwg yn strwythur rheoli'r sefydliad, ond hefyd wrth rannu adborth y rhai a gafodd eu cyfweld.
- Grwpiau Ardal yr Aelodau, lle mae aelodau a swyddogion yn cwrdd mewn wardiau dynodedig ar hyd a lled y Sir i drafod blaenoriaethau lleol preswylwyr a materion sy'n cael effaith yn lleol e.e. rhoi wyneb newydd ar ffyrdd. Yn yr enghraifft hon, trafodwyd a chynhigiwyd dewis ar ba ffordd y dylid rhoi wyneb newydd fel blaenoriaeth leol (ac eithrio gofynion statudol) drwy ddefnyddio'r adnoddau presennol. Roedd y dull hwn yn ymddangos fel un arloesol i'r Panel ac yn sicr yn ffynhonnell ar gyfer ymgysylltu ag aelodau a'r gymuned gyfan.

7.0 Heriau Lleol a Chenedlaethol

- 7.1 Fel yn achos pob awdurdod lleol, mae'r Cyngor yn wynebu pwysau ariannol sylweddol, yn ystod y flwyddyn a'r tymor canolig. Mae'r bwlch sylweddol o ran y senario gyllido yn nodi bwlch cyllido cronol o £67.4 miliwn erbyn 2027-28.
- 7.2 Mae'r cefndir economaidd heriol hwn yn parhau ar adeg pan fo galw cynyddol am wasanaethau awdurdodau lleol ac argyfwng costau byw, sy'n waeth oherwydd pwysau cynyddol chwyddiant. Fel yn achos awdurdodau lleol eraill, mae'r Cyngor wedi gweld cynnydd yn nifer y lleoliadau gofal plant cymhleth, lleoliadau gofal maeth annibynnol, cynnydd yn y galw a'r costau ym maes gofal cymdeithasol i oedolion, a phwysau o ran cefnogi digartrefedd oherwydd costau a chymorthdaliadau cysylltiedig â llety dros dro.
- 7.3 Er mai'r un yw'r darlun at ei gilydd ym mhob Cyngor lleol, mae Sir Ddinbych yn profi lefelau difrifol iawn o amddifadedd, yn arbennig ar hyd arfordir y gogledd. Mae'r Sir yn gartref i rai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019) yn rancio ardaloedd yng Nghymru o 1 (mwyaf difreintiedig) i 1,909 (lleiaf difreintiedig). Yn ôl MALIC, mae dwy ran o'r Rhyl bellach ymhlith yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru - Gorllewin y Rhyl 2 (wedi'i rancio fel 1) a Gorllewin y Rhyl 1 (wedi'i rancio fel 2).
- 7.4 Mae yna heriau amlwg iawn o ran recriwtio a chadw staff ar draws sector cyhoeddus y DU, a hynny mewn nifer o alwedigaethau; o gynllunwyr i weithwyr cymdeithasol a'r rheiny sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol.
- 7.5 Tra'r oeddent ar y safle, bu i'r Panel gydnabod rhai o'r heriau gwleidyddol sy'n wynebu'r Cyngor mewn perthynas â chyflwyno ei system wastraff newydd. Er bod y mater hwn wedi'i nodi fel problem fawr ar draws y Cyngor, roedd y Panel yn ymwybodol bod angen i'r APP ystyried ystod o swyddogaethau corfforaethol, yn hytrach na chanolbwyntio ar unrhyw fater unigol. Mae'r Panel yn cydnabod bod y Cyngor yn bwriadu cynnal adolygiad annibynnol, ar wahân, er mwyn deall sut y

cafodd y system ailgylchu newydd ei chyflwyno a pha wersi y gellir eu dysgu, ond ni ddylid gadael i hynny amharu ar uchelgais y Cyngor i gymryd risgiau penodol wrth arwain ei raglen drawsnewid i'r dyfodol.

Trosolwg o'r Canfyddiadau

8.0 Arweinyddiaeth: I ba raddau y mae strwythur corfforaethol a gwleidyddol y Cyngor yn gweithio, ac a yw capasiti a gallu'n briodol er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor?

- 8.1 Tra'r oeddent ar y safle, gwelodd y Panel dystiolaeth o arweinyddiaeth weithredol amlwg ac Uwch Dîm Arweinyddiaeth cydlynol, a oedd yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau i breswylwyr Sir Ddinbych a staff y Cyngor.
- 8.2 Roedd y Panel hefyd yn cydnabod bod arweinyddiaeth ddemocrataidd a chorfforaethol y Cyngor yn cwmpasu egwyddorion yr asesiad perfformiad panel, a'i fod yn dangos ymrwymiad dilys o ran ei welliant ei hun a gwelliant a arweinir gan y sector.
- 8.3 Gwelodd y Panel dystiolaeth uniongyrchol o drefniant clymblaid gadarn ac aeddfed rhwng y Blaid Lafur a Phlaid Cymru, yn ogystal â sut mae'r Cabinet yn ceisio cydweithio er budd dinasyddion. Fel yr awgrymodd un aelod Cabinet;
"Cymunedau yn gyntaf, nid gwleidyddiaeth".
- 8.4 Mynegwyd pryderon â'r Panel hefyd gan aelodau'r Cyngor ynghylch ymdeimlad bod y Cyngor wedi troi'n fwy 'gwleidyddol' dros y blynyddoedd diwethaf, a bod hynny wedi achosi rhywfaint o straen ychwanegol ar y weinyddiaeth.
- 8.5 Roedd y Panel yn cydnabod y newidiadau sylweddol a wnaed o ran arweinyddiaeth Cyngor Sir Ddinbych dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd hyn yn cynnwys Prif Weithredwr newydd, gweinyddiaeth wleidyddol newydd, 5 aelod newydd i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, ac a gefnogir gan werthoedd ac egwyddorion newydd sy'n cael eu hyrwyddo gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr.
- 8.6 Yng ngoleuni pwysau strategol a gweithredol parhaus, o bosibl y bydd y Cyngor yn dymuno ystyried pa gamau y gall eu cymryd er mwyn sicrhau bod ei Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn parhau'n gydlynol, ac yn cyd-fynd â gweledigaeth gyffredin Sir Ddinbych nawr ac yn y dyfodol. Fel yr awgrymodd un unigolyn a gafodd ei gyfweld;

"Rydym yn sefydliad sy'n dysgu, dylem gymryd mwy o amser i fuddsoddi yn ein dysgu ein hunain fel timau".

- 8.7 Roedd y Panel hefyd yn cydnabod y pwysau a'r craffu dwys a wynebai'r Cyngor ar ôl cyflwyno'r system wastraff newydd. O bosibl y bydd y Cyngor yn dymuno ystyried pa gymorth sy'n canolbwyntio ar les sydd ar gael i'w holl staff yr effeithir arnynt.
- 8.8 Roedd y Panel yn cydnabod yr ymdrechion a wnaed gan y Prif Weithredwr i ad-drefnu cyfarwyddwyr y Cyngor a dywedodd ei bod yn ymddangos bod y strwythur newydd yn gweithio'n dda ac yn cefnogi buddiannau corfforaethol y Cyngor.
- 8.9 Archwiliodd y Panel dystiolaeth o ddiwylliant "Un Cyngor" y Cyngor o fewn ei Gynllun Corfforaethol a gwelodd dystiolaeth bellach bod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn deall gweledigaeth ac amcanion corfforaethol y Cyngor a rôl cyfarwyddwyr a gwasanaethau unigol mewn perthynas â hynny.

- 8.10 Nododd y Panel y gallai arweinwyr y Cyngor ddatblygu'r diwylliant "Un Cyngor" ymhellach, er mwyn sicrhau gweledigaeth "Un Sir" fwy amlwg o ran arweinyddiaeth seiliedig ar *leoedd*. Gallai hyn gefnogi'r Cyngor gyda mynegi ei flaenoriaethau trawsnewid ar gyfer 25/26 a thu hwnt.
- 8.11 Nododd y Panel bod Grwpiau Ardal yr Aelodau'n gweithio'n dda iawn ar reoli blaenoriaethau'r wardiau lleol, ac y gellid datblygu hyn ymhellach, yn enwedig wrth ystyried y newidiadau y mae'r Cyngor o bosibl yn dymuno eu gwneud, o ran sut y caiff gwasanaethau eu darparu mewn ardaloedd lleol, gyda'r posibilrwydd o gynnwys Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned.

<p>1.</p>	<p>Parhau i ddatblygu'r naratif a'r weledigaeth a bennwyd gan y Cyngor ar gyfer Sir Ddinbych, er mwyn sicrhau y gall wasanaethu'r Sir yn y tymor canolig a'r hirdymor.</p> <p>Dylai hyn adlewyrchu'r llw o fanteision sy'n gysylltiedig â'r ardal, megis ei hasedau diwylliannol, naturiol a daearyddol penigamp. Dylai'r Cyngor ddatblygu'r modd y mae'n mynd ati i lunio polisïau cynhwysol, er mwyn sicrhau mai'r un yw'r weledigaeth ar draws y Cyngor, ei bartneriaid a'i breswylwyr.</p> <p>Dylai'r weledigaeth hon gyd-fynd â'i flaenoriaethau trawsnewid hirdymor a'i gynllun ariannol tymor canolig.</p>
<p>2.</p>	<p>Ystyried y gefnogaeth sydd ar gael i Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor o ran lles a datblygiad proffesiynol.</p> <p>Mae angen i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol a'r uwch dîm rheoli ehangach barhau i ganolbwyntio a bod yn wydn wrth wynebu heriau parhaus a heriau i'r dyfodol.</p>

9.0 Cynigion Cyllidebol / Trawsnewid: I ba raddau y mae'r Cyngor wedi rheoli'r argyfwng ariannol presennol a pha mor dda y mae'r Cyngor yn paratoi ar gyfer y dyfodol?

9.1 Bu i'r Cyngor orwario £3.2 miliwn yn 2023/24. Yn ystod hydref 2023, rhagwelwyd y byddai'r ffigwr hwn yn £4.5 miliwn. Bu i Sir Ddinbych ddefnyddio 'mesurau rheoli cyllidebol' er mwyn helpu i leihau'r gorwariant. Mae'r meysydd gorwariant fel a ganlyn: y Gwasanaethau Addysg a Phlant, Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion a Digartrefedd. Roedd y meysydd gorwariant yn deillio o:

- Fwy o leoliadau plant cymhleth gyda chostau uwch a mwy o leoliadau maethu annibynnol.
- Pwysau sylweddol cyffredinol ym maes gofal cymdeithasol i oedolion a phwysau cymorthdaliadau o ran digartrefedd, oherwydd y cyfnod a dreulir yno ar gyfartaledd a'r gyfradd fesul noson mewn llety dros dro.

- Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol oherwydd pwysau o ran cynnal a chadw priffyrdd, costau cerbydau'r gwasanaethau stryd a gwasanaethau gwastraff.

9.2 Mae'r Cyngor wedi pennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2024/25 drwy:

- Nodi 'cynigion i arbed symiau mawr o arian' gwerth £2.388 miliwn, lle gofynnwyd i Benaethiaid Gwasanaeth gynnig prosiectau i wneud arbedion sylweddol. Cafodd hyn ei wneud mewn trafodaeth â'r Aelodau Arweiniol. Fe ystyriwyd pob cynnig gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol ac mewn cyfarfodydd anffurfiol o'r Cabinet, cyn trafod adroddiad i'r holl Aelodau yn ffurfiol.
- Roedd gwasanaethau hefyd yn nodi cyfanswm o £1.367 miliwn o arbedion cost/ effeithlonrwydd anstrategol, yn ogystal â £0.928 miliwn o arbedion cyfalaf a chorfforaethol. Arweiniodd hyn at gyfanswm o £2.295 miliwn o arbedion cost/ effeithlonrwydd.
- Gofynnwyd i ysgolion hefyd gynllunio ar gyfer arbedion o 3% sy'n gyfystyr â £2.7 miliwn ar ôl derbyn cynnydd mewn cyllid i dalu am bwysau chwyddiannol o £7.616 miliwn.

9.3 Roedd y dull a amlinellwyd uchod yn dal i adael bwlch ac fe osodwyd targedau i arbed £3 miliwn yn rhagor yn 2024/25 i Benaethiaid Gwasanaeth ac roedd y Cyngor yn cydnabod nad oedd y strategaeth hon yn un ddelfrydol, ond yn yr wythnosau ar ôl cymeradwyo'r gyllideb, fe nodwyd yr arbedion hyn, a dangoswyd tystiolaeth i'r Panel bod y rhain yn cael eu cyflawni.

9.4 Cyfeiriodd y Panel at arferion da o ran sut yr adroddir ynghylch perfformiad yn erbyn arbedion ac roedd o'r farn y gallai fod cyfleoedd i ehangu ar hyn, gan gynnwys cynigion i arbed arian nawr ac yn y dyfodol a datblygu'r dull Coch-Oren-Gwyrdd sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd.

9.5 Mae gan y Cyngor strategaeth ar gyfer ei gynaliadwyedd ariannol tymor canolig. Roedd y Panel yn cydnabod y gwaith ymgysylltu cadarnhaol sydd wedi'i wneud ar draws y Cyngor er mwyn cefnogi ei waith cynllunio'r gyllideb ar gyfer 2024/25 a dywedodd fod y cynigion wedi'u diwygio yn seiliedig ar adborth, gan awgrymu bod gwaith ymgysylltu yn ystyrlon. Roedd hyn yn cael ei ategu gan gyfraniad aelodau etholedig mewn cyfarfodydd penodol i ystyried cynigion ariannol a byddai hyn yn cael ei gryfhau eleni drwy drafodaeth gynnar ar y gyllideb.

9.6 Roedd y dull o nodi cynlluniau trawsnewid posibl yn un cynhwysol, ac yn sicrhau bod staff o lefelau amrywiol yn y sefydliad yn cael eu cynnwys yn y broses. Roedd y Prif Weithredwr i'w weld yn ymweld â staff yn rheolaidd ac mewn lleoliadau gwahanol, yn unol â'r ethos 'Un Cyngor'.

9.7 Roedd y Panel o'r farn bod y Cyngor wedi defnyddio adnoddau ac egni i ddeall y pwysau lleol ar y Sir, ac yn mynd ati i ymgysylltu â'r Cyngor cyfan er mwyn rheoli ei bwysau cyllidebol nawr ac yn y dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys ymdrechion i fynd i'r afael â phwysau o fewn cyllidebau ysgolion, ar ôl i 13 allan o 54 o ysgolion gyflwyno balansau diffygiol, o gymharu â thair ysgol y flwyddyn flaenorol.

- 9.8 Tra'r oeddent ar y safle, sylwodd y Panel fod yna ddealltwriaeth dda o'r pwysau ariannol a bod Bwrdd Gweithredol y Cyngor (gwleidyddol a swyddogion) yn arwain ffocws sylweddol ar y gyllideb. Roedd yn amlwg bod hyn wedi'i sefydlu ym mhrosesau meddwl y sefydliad ac fe'i nodwyd fel y pwysau allweddol i'r Cyngor ei reoli. Roedd budd-ddeiliaid mewnol ac allanol yn cydnabod graddfa'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor. Yn ogystal, roeddent yn cydnabod y pwysau ariannol yn ystod y flwyddyn ar gyllideb y Cyngor, cynnydd yn yr angen am wasanaethau sy'n bodloni'r galw a'r angen i wneud arbedion ariannol.
- 9.9 Fodd bynnag, roedd y Panel o'r farn bod nawr angen i'r Cyngor fwrw ymlaen yn gyflym o ran blaenoriaethu ei ddyheadau trawsnewid gan ddefnyddio'r meini prawf blaenoriaethu sydd wedi'i lunio ganddo. Bydd angen i'r Cyngor ymateb i bwysau a ragwelir yn y dyfodol o ran ariannu, yn arbennig y bwlch ariannu a ragwelir yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor. Bydd angen i hyn gyd-fynd â'i strategaeth gweithlu.

<p>3.</p>	<p>Pennu blaenoriaethau amlwg ar gyfer rhaglen drawsnewid y Cyngor</p> <p>Dylai'r Cyngor barhau i ddilyn ei raglen drawsnewid. Bydd angen i'r Cyngor roi ystyriaeth ofalus i ba rai o'i brosiectau a'i fentrau y bydd yn eu blaenoriaethu ac yn bwrw ymlaen â hwy, a bwysicaf oll, pa brosiectau na fyddant yn cael eu blaenoriaethu.</p> <p>Dylai'r rhain adlewyrchu gweledigaeth ac uchelgais y Cyngor yn y tymor hwy, a chyd-fynd â'i strategaeth ariannol tymor canolig, ei strategaeth gweithlu a'i barodrwydd i dderbyn risg.</p>
<p>4.</p>	<p>Alinio model gweithredu a strategaeth gweithlu'r Cyngor â'i agenda gweledigaeth a thrawsnewid.</p> <p>Bydd angen i'r Cyngor ystyried yn ofalus sut mae ei weledigaeth yn trosi i fodel gweithredu'r Cyngor. Dylai hyn gynnwys sut y gall y Cyngor gefnogi staff i fodloni gofynion gweledigaeth i'r dyfodol o ran sut mae'r Cyngor yn gweithredu ac yn cadw at ei strategaeth allweddol, sy'n galluogi newid trawsnewidiol.</p>

10.0 Gweithio mewn Partneriaeth: I ba raddau y gall y Cyngor weithio'n effeithiol gyda phartneriaid, a gwneud y mwyaf o adnoddau ar draws y sectorau?

- 10.1 Nododd y Panel bod Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor yn cydnabod yn glir y byddai gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol er mwyn 'rheoli'r galw' mewn meysydd pwysau cyllidebol aciwt a chlywodd y Panel yn uniongyrchol gan bartneriaid mewn fforymau statudol am yr ymdeimlad cryf o ymgysylltu strategol a geir gan CSDd ar lefel uwch.
- 10.2 Fodd bynnag, dylai'r Cyngor ystyried sut y gall ddatblygu ei ddull o weithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu'n well â sefydliadau y tu hwnt i'r fforymau partneriaeth

hyn. Eglurodd nifer o sefydliadau llawr gwlad, busnesau bach, a grwpiau sector gwirfoddol wrth y Panel fod yna awydd cryf i weithio gyda'r Cyngor yn gynharach yn y broses o ddatblygu polisi, ac i gydweithio er budd cyfunol Sir Ddinbych.

"Y Cyngor yw'r hyn sy'n cynnal partneriaethau, ond fe allai wneud mwy, a sbarduno rhagor o waith partneriaeth."

10.3 Nododd y Panel ddealltwriaeth glir ynghylch potensial fforymau partneriaeth i liniaru pwysau cyllidebol yn y tymor canolig a thu hwnt. Fodd bynnag, clywodd hefyd gan ystod o fudd-ddeiliaid mewnol ac allanol y Cyngor, ei fod wedi cael trafferthion gyda darparu'r cymorth corfforaethol sy'n ofynnol er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial trawsnewidiol y fforymau partneriaeth hyn.

10.4 Dylai'r Cyngor ystyried hefyd sut y gall ymgysylltu â Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned, mewn ymdrech i ategu gwaith partneriaeth.

<p>5.</p>	<p>Ystyried yn ofalus y cyfleoedd ar gyfer rhagor o waith partneriaeth drwy'r consortia rhanbarthol statudol newydd h.y. Cyd-bwyllgorau Corfforedig.</p> <p>Mae'r Cyngor yn cydnabod y rôl bwysig y bydd gan bartneriaid i'w chwarae wrth 'reoli'r' galw am wasanaethau allweddol y Cyngor. Mae gan y Cyngor gyfle i ddatblygu ei ddull o weithio mewn partneriaeth a'i ategu drwy ymgysylltu'n rhagweithiol â Chyd-bwyllgorau Corfforedig statudol newydd.</p>
<p>6.</p>	<p>Defnyddio pŵer cynnull y Cyngor i ategu gwaith partneriaeth â Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned, a chydweithio mwy er mwyn sicrhau canlyniadau ar y cyd.</p> <p>Dangoswyd i'r Panel fod y Cyngor yn gweithio â'i Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned mewn rhai ardaloedd ac mae'n cydnabod y rolau a'r gefnogaeth allweddol a all ddeillio o'r berthynas hon. Mae'r Panel yn awgrymu y gellid cryfhau'r gwaith hwn ymhellach drwy sgysiau mwy cynnar ac adeiladol ynghylch capasiti a faint o adnoddau sydd gan y Cynghorau hynny i gefnogi dyheadau ehangach y Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau trawsnewid a bod yn rhan hanfodol o fodel gweithredu'r Cyngor yn y dyfodol.</p>
<p>7.</p>	<p>Adolygu a chryfhau'r berthynas ag Undebau Llafur</p> <p>O edrych ar y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 newydd, dylai uwch dîm arweinyddiaeth y Cyngor ystyried a oes modd iddynt wneud mwy i fodloni nodau ac egwyddorion datblygu consensws a chydweithio fel y nodir yn y ddeddf gydag Undebau Llafur.</p>

11.0 Y graddau y mae'r Cyngor yn gweithredu ei swyddogaethau'n effeithiol

- 11.1 Tra'r oeddent ar y safle, roedd modd i'r Panel ddeall a gweld tystiolaeth o sawl ffynhonnell a oedd yn rhoi sicrwydd bod y Cyngor yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys -:
- 11.2 Adolygu'r adroddiadau rheoleiddio statudol nad oedd yn tynnu sylw at unrhyw faterion sy'n destun pryder o ran swyddogaethau gwasanaeth y Cyngor. Ar adeg cynnal yr APP, roedd y Cyngor yn profi problemau gyda'r gwasanaeth gwastraff. Fodd bynnag, roedd y Panel yn fodlon bod y Cyngor yn creu adolygiad i ddysgu gwersi, mynd i'r afael â materion yn ymwneud â gwastraff a defnyddio'r gwersi ehangach a ddysgwyd ar gyfer gwneud newidiadau sylweddol i wasanaethau ar draws y Cyngor.
- 11.3 Trwy grwpiau staff, sesiynau 1-i-1 a grwpiau aelodau amrywiol, nododd y Panel ffrydiau cyffredin o bwysau ar wasanaethau'r Cyngor a hynny'n bennaf o ran darparu adnoddau i gyflawni swyddogaethau'r Cyngor nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Cyngor wedi nodi adnoddau fel y pwysau allweddol ar draws y sefydliad, ac roedd pawb y bu i'r Panel ymgysylltu â nhw yn deall mai dyna'r achos. Mae'r broses hon wedi'i harwain a'i chymhell gan y Prif Weithredwr, yr Uwch Dîm Rheoli ehangach a'r swyddogion gweithredol gwleidyddol i'r fath raddau, bod angen neges glir ynghylch dull Cyngor 'cyfan' o ran cynllunio gwasanaethau yn y dyfodol, ynghyd â gwneud arbedion a phenderfyniadau anodd. Mae'r Cyngor yn wynebu'r her hon yn uniongyrchol.
- 11.4 Dywedodd y Panel fod systemau effeithiol ar waith gan y Cyngor i gyflawni ei swyddogaethau, drwy gynllunio gwasanaethau, rheoli perfformiad ac adnoddau, a threfniadau craffu da sy'n seiliedig ar gynllun corfforaethol ac amcanion corfforaethol y Cyngor. Ceir gwybodaeth, perchnogaeth a dealltwriaeth glir a chyffredin o weledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor ymysg grwpiau swyddogion, Cynghorwyr a phartneriaid ehangach. Cyfeiriodd y Panel hefyd at y trefniadau rheoli perfformiad newydd sydd ar waith ac sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor ac mae'n nodi'r gwaith sydd ar y gweill i wella argaeledd a hygyrchedd data, a fydd yn cynnig tystiolaeth i'r Cyngor, er mwyn darparu ei wasanaethau ar draws y sefydliad.
- 11.5 Mae'r trefniadau cynllunio gwasanaethau yn cyfleu sut mae'r Cyngor yn ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy a nodir yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y cysylltiad amlwg a'r modd y mae'n cyfrannu at gyflawni amcanion corfforaethol y Cyngor. Mae trefniadau cynllunio gwasanaethau'r Cyngor hefyd yn dangos ac yn cyfleu ymrwymadau Sero Net Cymru 2030 Llywodraeth Cymru.
- 11.6 Cyfeiriodd y Panel at ymrwymiad a gwybodaeth gadarn aelodau a swyddogion i gymunedau lleol ar hyd a lled Sir Ddinbych. Mae aelodau'n rhan hanfodol o'r gwaith cynllunio ar y cyd ar gyfer proses Grwpiau Ardal yr Aelodau, gan gyfleu pryderon preswylwyr a blaenoriaethau darparu gwasanaeth sy'n gryfder yn Sir Ddinbych ac yn ffynhonnell i foddhad dinasyddion wrth gyflawni blaenoriaethau mewn modd cyfyngedig yn ariannol, a gynlluniwyd yn lleol.

11.7 Roedd y Panel yn cydnabod bod gan y Cyngor, trwy ei Arolwg Dadansoddiad Budd-ddeiliaid, ddulliau ar waith i fesur bodlonrwydd pobl leol o ran y modd y mae'n darparu ei wasanaethau.

11.8 Mae ymagwedd y Cyngor tuag at weithio mewn partneriaeth wedi'i nodi yn adran 10.0 uchod.

12.0 Y graddau y mae'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau'n ddarbodus, effeithlon ac effeithiol

12.1 Mae trefniadau rheoli ariannol y Cyngor wedi'u cynnwys yn adran 8.0.

12.2 Cyfeiriodd y Panel at gydnabyddiaeth ymhlith Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor mai gweithlu'r Cyngor oedd un o'i asedau pwysicaf, a bod y Cyngor wedi llunio ei strategaeth pobl/ gweithlu newydd ar gyfer 2024 - 26 yn ddiweddar.

12.3 Bydd y gwaith hwn yn hanfodol o ran dyheadau trawsnewid ehangach y Cyngor, ac i sicrhau bod gan y Cyngor weledigaeth glir ar gyfer ei weithlu yn y tymor canolig a'r hirdymor. Mae'r strategaeth hefyd yn offeryn pwysig ac yn ganolbwynt ar gyfer ystyried materion newydd neu faterion sy'n codi mewn perthynas â'r gweithlu.

12.4 Roedd y Panel yn cydnabod bod y Cyngor wedi buddsoddi amser, ymdrech ac egni i gyfathrebu â'i staff a nododd yn gadarnhaol bod cyhoeddi Heddiw yn Sir Ddinbych, newyddlen ddyddiol y Cyngor i staff, yn enghraifft dda o ymrwymiad y Cyngor i rannu gwybodaeth â'i staff.

12.5 Tra'r oeddent ar y safle, cafodd y Panel gyfle i gwrdd â sawl grŵp o staff. Tynnodd y sesiynau hyn sylw at yr amrywiaeth o brofiadau sydd ar gael i staff o weithio i CSDd. Hefyd, at ei gilydd, roedd neges gadarnhaol ymhlith staff ynghylch gweithio i'r awdurdod, ond tynnwyd sylw hefyd at rai pryderon a rhwystredigaethau. Un ohonynt oedd sut y gellid rhannu negeseuon corfforaethol ymhellach i lawr y strwythur sefydliadol.

12.6 Fel rhan o adolygiad parhaus o brosesau cyfathrebu'r Cyngor, o bosibl y bydd y Cyngor yn dymuno ystyried beth arall y gall ei wneud i hyrwyddo diwylliant o ymgysylltu dwy-ffordd â staff, ac a yw'r Arolwg Budd-ddeiliaid yn darparu digon o ddata i'r Cyngor er mwyn cefnogi a llywio'r gwaith o weithredu ei strategaeth gweithlu.

12.7 Dylai'r Cyngor hefyd ystyried sut y gellir ymgysylltu â staff nad oes ganddynt fynediad at e-bost y Cyngor a rhannu gwybodaeth sy'n berthnasol i staff â nhw.

8.	Adolygu dull y Cyngor o ran sut y mae'n cyfathrebu ac yn ymgysylltu â'i breswylwyr, ei staff a'i bartneriaid.
-----------	--

	Mae'r Cyngor yn adolygu ei ymagwedd tuag at sicrhau bod yr offer a'r adnoddau cywir ar waith ganddo, er mwyn ymgysylltu â'i staff, ei ddinasyddion a'i fudd-ddeiliaid, mewn modd dwy-ffordd, ystyrlon.
--	--

13.0 Y graddau y mae trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith gan y Cyngor

- 13.1 Roedd y Panel o'r farn bod gan swyddogion ac aelodau ddealltwriaeth dda o'u rolau unigol a chyflenwol, o ran rheolaeth wleidyddol, a'u bod yn gefnogol i'r broses APP ac egwyddorion gwelliant parhaus a arweinir gan y sector.
- 13.2 Dangoswyd tystiolaeth i'r Panel hefyd o'r modd y mae arweinyddiaeth gorfforaethol a gwleidyddol y Cyngor yn rhoi pwyslais ar feithrin diwylliant o dryloywder a chymryd cyfrifoldeb ar lefel uwch.
- 13.3 Cyfeiriodd y Panel at Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cadarn, sydd ag arweinyddiaeth gref ac effeithiol gan gadeirydd ac is-gadeirydd y Pwyllgor.
- 13.4 Cyfeiriodd y Panel hefyd at y berthynas waith gadarnhaol rhwng y Cyngor a'i swyddogaeth archwilio mewnol, gan nodi bod systemau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau tryloywder, gan gynnwys mewn meysydd trawsnewid.
- 13.5 Dywedodd y Panel hefyd fod prosesau rheoli risg effeithiol ar waith gan y Cyngor, yn ogystal â systemau priodol i olrhain risgiau ar draws y sefydliad a pharodrwydd i dderbyn risg, a ddylai alluogi'r Cyngor i fanteisio ar gyfleoedd sy'n codi. Fodd bynnag, nododd y Panel hefyd y gallai'r Cyngor elwa o brofi ei barodrwydd i dderbyn risg ymysg ei uwch swyddogion ac aelodau, gan sicrhau bod dealltwriaeth gyffredin ynghylch sut y gellir cymhwysu hyn i flaenoriaethau trawsnewid y Cyngor a'i gynllun ariannol tymor canolig. Mae hyn yn berthnasol iawn o ystyried y craffu cyhoeddus enbyd y bu i'r Cyngor ei wynebu ar ôl cyflwyno ei system wastraff newydd.
- 13.6 Gwelodd y Panel dystiolaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau datblygiad parhaus aelodau a nododd fod y Cyngor wedi creu amrywiaeth o fodiwlau hyfforddi gorfodol ar gyfer aelodau yn ddiweddar. Roedd y Panel yn cydnabod y cyfle i'r Cyngor ddatblygu'r cymorth y mae'n ei gynnig i'w aelodau, yn enwedig ei aelodau Cabinet. Yng ngeiriau un unigolyn a gafodd ei gyfweld;
- “Mae bod yn Gyngorydd yn 2024, heb sôn am fod yn Aelod Cabinet, yn golygu bod rhaid dysgu llawer yn gyflym.”*
- 13.7 Er mwyn sicrhau y gall y Cyngor gyflawni ei uchelgeisiau a'i fod yn gallu craffu ar ei berfformiad ei hun, bydd angen iddo barhau i weithio â'i aelodau, deall eu hanghenion o ran datblygiad proffesiynol parhaus a sicrhau bod cymorth priodol yn dal ar gael i bob Cynghorydd a Phwyllgor, er mwyn cefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus eu hunain.
- 13.8 Gwelodd y Panel dystiolaeth o'r modd y mae'r Cyngor yn llywodraethu ei raglen cydraddoldeb, gan nodi ei fod wedi sefydlu fforwm pwrpasol, dan arweiniad yr aelodau, sy'n dod â swyddogion ac aelodau ynghyd i ystyried materion cydraddoldeb.
- 13.9 Fodd bynnag, clywodd y Panel hefyd gan nifer o unigolion a gafodd eu cyfweld, y gellid gwneud prosesau Asesiad Integredig y Cyngor o'r Effaith ar Les, sy'n cefnogi'r Cyngor i sicrhau bod egwyddorion statudol allweddol yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisi yn fwy effeithiol.

9.	<p>Cydraddoldeb</p> <p>Wrth adolygu ei Gynllun Corfforaethol mae angen i'r Cyngor ystyried beth yw'r ffordd orau o gymhwyso gofynion Dyletswyddau Penodol Deddf Cydraddoldeb Cymru 2010, (er enghraifft y Cynllun Cydraddoldeb Strategol), er mwyn sicrhau bod dull cadarn ac effeithiol ar waith ganddo.</p>
-----------	--

14.0 Cymorth i Wella

14.1 Pe dymunai'r Cyngor drafod unrhyw gymorth sydd ei angen er mwyn mynd i'r afael â meysydd i'w gwella, cysylltwch â Jo Hendy, Pennaeth Gwelliant CLILC.

15.0 Cydnabyddiaeth

15.1 Hoffai'r Panel a CLILC ddiolch am y gefnogaeth i gydlynu ceisiadau am ddogfennau, ymatebion i ymholiadau, trefnu cyfarfodydd a gweithdai a darparu cefnogaeth ar y safle.

Helen Vaughan-Evans – Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol - Perfformiad, Digidol ac Asedau

Robyn Lovelock – Rheolwr Mewnwelediad, Strategaeth a Chyflawni

Heidi Barton-Price – Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad

Emma Horan – Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad

Carol Evans – Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad

Chloe Thomas – Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad